

Crynodeb Allweddol Digwyddiad Ymgysylltu â'r Strategaeth Arloesi:

Sefydliadau sy'n bresennol:

Tri-wal UK Ltd, Gofod Cymru, BiaEnergy Consulting, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, Llywodraeth Cymru, Prifysgol Caerdydd, Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Abertawe, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Clwstwr, Bargen Dinas-Ranbarth Caerdydd

Cyflwyniad:

Ar ôl cyhoeddi'r model rhesymeg drafft ar gyfer Strategaeth Arloesi Cymru, rhoddodd y digwyddiad ymgysylltu hwn lwyfan i randdeiliaid drafod a rhoi adborth ar y model.

Digwyddiad:

Hysbysebwyd y digwyddiad drwy gylchlythyr Arloesedd, LinkedIn a Twitter. Rhoddwyd gwybod hefyd i bob sefydliad a oedd wedi cofrestru diddordeb yn y Strategaeth Arloesi yn y gorffennol am y digwyddiad. Cafodd yr holl gyfranogwyr gyfle i ddarllen y model rhesymeg cyn y sesiwn. Dechreuodd y digwyddiad gyda chyflwyniad i'r model rhesymeg ac fe'i dilynwyd gan drafodaeth ynghylch y gweithgareddau, y mesurau a'r canlyniadau a ddogfennwyd gan y model rhesymeg, gan gynnwys meysydd gwella ac unrhyw adborth.

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod y digwyddiad:

- A oes unrhyw weithgareddau arloesi sydd ar goll nad ydynt wedi'u cynnwys yn y model, neu unrhyw gynnwys na ddylai fod yn rhan o'r ecosystem arloesi?
- Sut mae pobl yn teimlo am y metrigau a ddefnyddir i fesur yn y model rhesymeg, pa fetrigau sydd wedi'u colli neu na ddylid eu defnyddio i ddal arloesedd?
- Pa ganlyniadau y dylem fod yn ceisio eu cyflawni yn y gofod arloesi, a oes unrhyw rai ar goll o'r model rhesymeg?

Themâu Allweddol:

Gweithgareddau:

Tryloywder a Chydweithredu: Roedd un thema drafod allweddol yn canolbwyntio ar bwysigrwydd tryloywder a chyfathrebu a chydweithredu ar draws Cymru (traws-ranbarthol). Angen meithrin gallu a chapasiti, a chydlynu a symleiddio dulliau o ariannu ceisiadau i Gymru. Bydd hyn yn cynyddu nifer y ceisiadau llwyddiannus yng Nghymru.

Cymorth wedi'i dargedu: Siaradodd y cyfranogwyr am gymorth a datblygiad wedi'u targedu ar gyfer y rhai sy'n ceisio hyrwyddo arloesedd o fewn eu sefydliad. Y

potensial ar gyfer ymyrryd i sicrhau cydweithio lle gall mabwysiadwyr cynnar neu ddarpar arloeswyr arwain drwy arddangos a dangos arfer gorau. Drwy gymryd sefydliadau llai profiadol o dan eu hadenydd, gallent annog cwmnïau llai i fod yn fwy arloesol.

Caffael Arloesol: Roedd cydnabyddiaeth o'r angen am newid pellach yn ffocws perthynas y llywodraeth â chwmnïau tuag at gaffael mwy arloesol a datblygu cydberthnasau masnachol hirach, yn hytrach na ffrydiau ariannu.

Diwylliant Arloesol: Roedd pwyslais hefyd ar feithrin diwylliant arloesol sy'n gydweithredol ac yn canolbwyntio ar gonsortia ac adeiladu rhwydweithiau. Ymhlith y ffactorau cyfrannol allweddol a nodwyd fydd eu hangen i greu diwylliant o'r fath mae; agweddau unigolion, eglurder gweledigaeth, arweinyddiaeth effeithiol a chanlyniadau cwblhau diriaethol. Tynnwyd sylw hefyd at archwilio cyfleoedd cydweithredol rhyngwladol i hyrwyddo gweithgareddau arloesi

Cwmpas a ffocws ar gyfer Strategaeth Arloesi: Yr angen i nodi ffocws, cwmpas a phwrpas y strategaeth arloesi yn benodol fel bod canlyniadau a mesurau'n ddiamwys. Mae cyfeiriad a sbardunau arloesedd hefyd i'w nodi a'u rhestru'n glir fel y gellir mapio'r broses o gyflawni canlyniadau.

Dadansoddiad o gryfderau: Dadansoddi a nodi cryfderau Cymru ei hun a gweithgareddau arloesi cyfredol ac adeiladu ymwybyddiaeth gysylltiedig a chydabod y gweithgareddau hyn, gan eu defnyddio fel sbardun i ysgogi arloesedd ymhellach a denu ffrydiau ariannu.

Metrigau:

Diffyg Metrigau Rhanbarthol: Codwyd sawl pwynt am y gallu i gasglu metrigau rhanbarthol er mwyn gallu canolbwyntio ar yr agenda 'lefelu'. Cafwyd trafodaeth ynghylch 'lefelu' yn cael ei ystyried i raddau helaeth fel cysyniad yn y DU a Chymru'n cael ei hystyried yn un rhanbarth yn hytrach na nifer ohonynt. Codwyd gweithgareddau arweiniol mewn meysydd penodol i fynd i'r afael â hyn.

Cywirdeb Metrig: Tynnwyd sylw at y ffaith nad yw ffrydiau ariannu ar eu pennau eu hunain yn fesur cywir o weithgarwch cynyddol. Mae angen mesur ymddygiad a newid system hefyd. Tynnodd sawl cyfranogwr sylw at bwysigrwydd defnyddio metrigau gwerth ychwanegol ochr yn ochr â mesurau meintiol i asesu effaith wirioneddol arloesi o ystyried bod llawer o ddangosyddion cyfredol yn amherffraith. Trafodwyd hyn hefyd yng nghyd-destun mesur arloesedd mewn lleoliadau gofal cymdeithasol a chasglu lefelau cyd-greu, cyd-gynhyrchu ac allbynnau sy'n seiliedig ar sgiliau i roi mesur mwy cyfannol o arloesedd. Ymhlith y mesurau posibl eraill a drafodwyd roedd trosi a masnacheiddio Eiddo Deallusol i gasglu perfformiad arloesi, gydag enghreifftiau o ran nifer y busnesau newydd, busnesau twf uchel, cwmnïau deillio a threfniadau trwyddedu newydd. Codwyd dyfarniadau ymchwil cydweithredol i gasglu cydweithrediad sector â diwydiant neu'r farchnad agos a nodwyd tystebau astudiaethau achos fel mesur meddalach posibl.

Canlyniadau:

Canlyniadau cyraeddadwy: Cafwyd sylwadau ynghylch y gwahaniaeth rhwng yr effaith wirioneddol ar gymdeithas (a'r effeithiau ehangach cysylltiedig) a'r gwerth meintiol fel y cyllid a ddyfarnwyd. Er bod effaith arloesi'n bellgyrhaeddol, cydnabuwyd y dylai'r canlyniadau a gofnodir fod yn gyraeddadwy ac yn ymarferol.

Amrywiaeth a Chynhwysiant: Roedd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant o fewn canlyniadau'r strategaeth; a cheisio hyrwyddo arloesedd ar draws pob rhanbarth, sefydliad, grŵp a sector o'r economi a allai fod wedi cael llai o gydnabyddiaeth o'r blaen. Yn benodol, cafwyd trafodaeth ar ddulliau ysgogi i gefnogi sefydliadau llai datblygedig i arloesi, sectorau llai cydnabyddedig fel Amaethyddiaeth a thargedu rhanbarthau penodol yng Nghymru nad ydynt efallai wedi cymryd rhan yn yr un lefelau o gyllid/gweithgarwch arloesi o'r blaen, neu wedi'u sicrhau.

Adborth arall:

Model Eglurder Rhesymeg: Roedd y pwyntiau eraill a godwyd yn cynnwys pwysigrwydd sicrhau y gellir egluro pob cam o'r model rhesymeg o weithgareddau i ganlyniadau yn glir er mwyn sicrhau'r gallu i gyflawni.

Adborth:

Os oes gennych unrhyw adborth ar y model rhesymeg neu os hoffech gymryd rhan drwy ymgysylltu, anfonwch e-bost at InnovationStrategy@gov.wales i gyfrannu at y drafodaeth.